### Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled

Mae Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled yn wobr flynyddol i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru. Dylai'r gwaith gyd-fynd â gwerthoedd ac amcanion Urdd Gobaith Cymru, gan gyfeirio at 5 piler Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, sef gwaith addysgol, cyfranogol, mynegiannol, cynhwysol a grymusol. Am ragor o wybodaeth am waith ieuenctid yng Nghymru, ewch yma.

Caiff Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled ei roi gan Dewi a Gerallt Hughes, er cof am eu rhieni John a Ceridwen Hughes oedd yn weithgar iawn ym maes ieuenctid. Bydd seremoni arbennig i gyflwyno'r tlws ar Faes Eisteddfod yr Urdd yn ystod wythnos yr ŵyl.

### Rheolau a Chanllawiau

1. Gellir ystyried unigolyn sy'n gweithio gyda pobl ifanc yn bresennol, neu unigolion sydd wedi cyfrannu at waith ieuenctid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn.
2. Gellir gwobrwyo unigolyn sydd wedi dangos arweinyddiaeth arbennig wrth ymwneud â phrosiectau penodol sy'n cynnwys pobl ifanc. Yn yr achos hyn, gwahoddir geisiadau ar ran grwpiau o bobl ifanc sydd wedi bod yn ymwneud â phrosiect arbennig, gan nodi rôl yr arweinydd wrth sicrhau llwyddiant y prosiect hwnnw.
3. Derbynnir enwebiadau gan unigolion neu fudiadau neu bwyllgorau.
4. I enwebu, defnyddiwch y ffurflen ar-lein ar wefan yr Urdd. Dyddiad cau enwebiadau yw **12yp, dydd Mercher y 28ain o Chwefror 2024.**
5. Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud ag ieuenctid sy'n dysgu'r iaith.
6. Dylai'r gwaith fod yn wirfoddol.
7. Dylai fod yn waith â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol. Gall fod yn waith wyneb i wyneb, digidol neu hybrid.
8. Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid (er enghraifft gwaith diwylliannol, chwaraeon, dyngarol, cymunedol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuenctid gyfrannu, gwaith awyr agored, cefnogi bobl ifanc o gefndiroedd leiafrifol a difreintiedig, ac yn y blaen).
9. Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuenctid.
10. Croesawn geisiadau gan arweinwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd, sawl hunaniaeth, profiadau ac anghenion. Bydd yr arweinwyr hyn yn dangos sut y maent yn dileu rhwystrau i ymgysylltu a chyfranogi, a sicrhau bod eu gwaith yn hygyrch i bawb, ac yn arbennig i'r bobl ifanc hynny a allai fod â phrofiad o gael eu hynysu, o fod ar gyrion cymdeithas, o gael eu hecsbloetio neu sydd â phrofiad o gamwahaniaethu, gan gynnwys y bobl ifanc sydd â nodwedd warchodedig.

**Hysbyseb Preifatrwydd**

Diolch yn fawr. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â chyfraith diogelu data'r DU. Dim ond at ddibenion y wobr hon fydd eich data'n cael ei ddefnyddio. Gweler ein Polisi Preifatrwydd yma.

Drwy ymgeisio, fe all eich data personol gael eu prosesu yng nghyd-destun cysylltiadau cyhoeddus a chyfleoedd i'r wasg (cyn ac ar ôl digwyddiad). Bydd y rhain yn cynnwys ffotograffiaeth, cyfweliadau gyda'r cyfryngau, defnyddio eich astudiaeth achos / stori mewn unrhyw gysylltiadau cyhoeddus, fideo, y cyfryngau cymdeithasol, y teledu a'r wasg. Bydd eich data personol yn cael eu cadw am ddeuddeng mis yn dilyn dyfarnu'r wobr a byddant yn cael eu dileu ar ôl hynny.

Os hoffech dynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg, rhowch wybod i ni trwy gysylltu â eisteddfod@urdd.org. Yna byddwn yn dileu'r holl ddata personol yr ydym yn eu prosesu ar eich cyfer chi at ddibenion y wobr.